


Sut olwg allai fod ar Fferm Wynt Foel Fach o Gae'r Garreg.

# Rydym yn cynnal ymgynghoriad cyn-ymgeisio statudol ar ein cynlluniau drafft ar gyfer Fferm Wynt arfaethedig Foel Fach, fferm wynt newydd ar dir i'r gogledd-ddwyrain o Frongoch, ger y Bala.

Mae'r ymgynghoriad yn rhedeg o **15 Rhagfyr 2025 i 9 Chwefror 2026.** Rydym wedi ymestyn y cyfnod o ymgynghori statudol o 42 diwrnod i bythefnos ychwanegol gan ystyried y gwyliau Nadolig.

Gallai'r fferm wynt 10 tyrbin ddarparu hyd at **72 MW** o drydan adnewyddadwy, digon i bweru **dros 68,700 o gartrefi**.[1]

Ers ein hymgynghoriad anffurfiol yn 2024, ac mewn ymateb i adborth technegol ac arolygon, rydym wedi gwneud newidiadau pwysig i'n prosiect:

- Mae nifer y tyrbinau wedi **gostwng** o 11 i 10.
- Mae un tyrbin wedi'i **symud** i leihau'r effaith weledol bosibl o'r Bala.
- Mae pedwar tyrbin **wedi'u lleihau o ran uchder** o 220m i 200m i leihau'r effaith weledol bosibl o Barc Cenedlaethol Eryri.

## Digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus

Ewch draw i un o'n digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus er mwyn:

- Dysgu mwy am ein cais cynllunio drafft
- Siarad â'r tîm a gofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych
- Gweld model 3D sy'n dangos sut olwg allai fod ar Fferm Wynt Foel Fach

**3pm – 7pm**
**15 Ionawr 2026**
**Neuadd Mynach**
**Cwmtirmynach**
**Y Bala LL23 7EB**

**3pm – 7pm**
**16 Ionawr 2026**
**Canolfan Henblas**
**22-24 Stryd Fawr**
**Y Bala LL23**

**10am – 2pm**
**17 Ionawr 2026**
**Neuadd Sarnau**
**Y Bala LL23 7LG**

## Rhannwch eich barn â ni

Rydym eisiau clywed gennych a byddem yn gwerthfawrogi eich adborth. Gallwch gysylltu â ni mewn gwahanol ffyrdd:

**Ffurflenni adborth** – ar gael mewn digwyddiadau arddangosfeydd cyhoeddus ac ar wefan y prosiect.

**E-bostio** – gallwch gynnig adborth ysgrifenedig drwy gyfeiriad e-bost y prosiect cyswllt@foelfach.cymru.

**Ffonio** – 01678 550032
9yb – 5yp, dydd Llun i ddydd Gwener.

Sganiwch y cod QR i fynd i'r wefan.

Gallwch hefyd ymweld â'n gwefan i ddarllen y cais cynllunio drafft llawn a gweld yr arddangosfa rithwir. Mae'r Crynodeb Annhechnegol drafft o'r Datganiad Amgylcheddol ar gael i'w weld yn Llyfrgell y Bala.

[1] Gweler www.foelfach.cymru

# Gweithio gyda phobl leol

**Ar ddiwedd 2024, cynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol ar ein cynlluniau cynnar ar gyfer Fferm Wynt Foel Fach a chawsom sgyrsiau defnyddiol gyda thrigolion, porwyr ac aelodau etholedig.**

**Ers hynny, rydym wedi parhau i gyfarfod â phobl leol, sydd wedi darparu rhagor o wybodaeth leol ac adborth ar ein cynlluniau.**

## Gweithio mewn partneriaeth ag Ynni Cymunedol Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru darged i 1.5 GW o ynni adnewyddadwy fod mewn perchnogaeth leol neu gydberchnogaeth erbyn 2035.

Rydym yn falch o weithio mewn partneriaeth ag **Ynni Cymunedol Cymru** gyda'r nod o ddatblygu model perchnogaeth gymunedol lle byddai trigolion lleol, busnesau a grwpiau cymunedol yn gallu prynu cyfranddaliadau yn y fferm wynt a **derbyn enillion ar eu buddsoddiad**.



## Cronfa Budd Cymunedol flaengar

Pleser yw cynnig Cronfa Budd Cymunedol flaengar o **£8,000 fesul MW** y flwyddyn (wedi'i chysylltu â'r mynegai) am oes weithredol Fferm Wynt Foel Fach (hyd at 40 mlynedd).

Gallai'r gronfa gynnig cyfanswm o **£576,000** bob blwyddyn i'w wario ar fentrau lleol. Mae hynny'n cyfateb i fuddsoddiad sylweddol o £23 miliwn yn yr economi leol.

Rydym yn gweithio gyda **Mantell Gwynedd a CVSC (Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy)** i drafod ffyrdd o sicrhau bod y gronfa hon wedi'i sefydlu'n briodol fel ei bod yn cwrdd ag anghenion lleol, a bod y broses ymgeisio'n syml.

**Mantell Gwynedd a CVSC yn bresennol yn ein digwyddiadau ymgynghori ac maent yn awyddus i glywed gennych.**

Ynni Cymunedol Cymru Community Energy Wales

MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

Cymorth Cymunedol Gwirfoddol Conwy
Community Voluntary Support Conwy

## Datganiad Amgylcheddol Drafft

Rydym wedi asesu'r effeithiau posibl y gallai'r fferm wynt eu cael, gan gynnwys ar **ecoleg, adareg, treftadaeth ddiwylliannol, tirwedd a gweledol, trafnidiaeth a mynediad**, ac **effaith gronnus** datblygiadau eraill yn yr ardal. Cyflwynir y rhain yn y Datganiad Amgylcheddol drafft, sydd ar gael ar ein gwefan..

## Gofalu am yr amgylchedd lleol

Mae gennym gynlluniau uchelgeisiol a chyffrous i gyflawni Budd **Net cyffredinol i Fioamrywiaeth** yn Foel Fach. Er enghraifft, rydym yn bwriadu cynyddu maint y rhostir a'r gweundir trwy reoli twf rhedyn. Bydd hyn yn cynnig gwell cynefinoedd ar gyfer adar sy'n nythu ar y ddaear fel y boda tinwyn, y gylfinir a'r ehedydd.

Ewch i'n digwyddiadau neu ewch ar-lein i ddysgu am ein **Cynllun Rheoli Cynefinoedd**.

## Y broses gynllunio

Mae'r broses gynllunio ar gyfer ffermydd gwynt yng Nghymru wedi'i chynllunio i sicrhau tryloywder a chyfranogiad y cyhoedd. Cyflwynir ceisiadau o dan y broses **Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC)** ac fe'u harchwilir gan **Arolygydd Cynllunio annibynnol o Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW)**.

Rhaid i ddatblygwyr ymgynghori'n helaeth â chymunedau lleol a rhanddeiliaid cyn cyflwyno eu cynigion. Mae PEDW hefyd yn ymgynghori'n eang yn ystod ei asesiad.

Ar ôl adolygu'r holl dystiolaeth, mae'r Arolygydd yn cyflwyno adroddiad gydag argymhellion i Weinidog Cymru dros Newid Hinsawdd, sy'n gwneud y penderfyniad terfynol yn seiliedig ar bolisi cynllunio, ystyriaethau amgylcheddol, a budd y cyhoedd

# Pam ynni gwynt ar y tir?

## Mae angen mwy o drydan arnom!

Rhagwelir y bydd defnydd trydan yng Nghymru bron â threblu erbyn 2050[2] oherwydd trydaneiddio gwres a thrafnidiaeth, a'n dibyniaeth gynyddol ar ganolfannau data i fodloni ein ffyrdd digidol o fyw.

## Cost is

Mae ynni gwynt ar y tir yn un o'r dulliau cyflymaf a rhataf o gynhyrchu trydan.

Mae ymchwil gan Goleg Prifysgol Llundain wedi dangos bod ynni gwynt wedi arwain at **brisiau trydan is** i ddefnyddwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf.[3] Mae cynyddu ein capasiti trydan adnewyddadwy cartref yn lleihau ein dibyniaeth ar danwydd ffosil sy'n cael ei fewnforio ac yn lleihau costau dros amser

## Carbon isel

Mae technoleg tyrbinau wedi gwella'n fawr ac mae tyrbinau modern yn fwy effeithlon ac yn dal adnodd gwynt mwy. Dros ei hoes weithredol, disgwylir i Fferm Wynt Foel Fach arbed mwy na'r hyn sy'n cyfateb i **2,632,967 tunnell** o $CO_2$, o'i gymharu â thrydan sy'n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddio tanwyddau ffosil.



## Newid hinsawdd

Haf 2025 oedd yr haf cynhesaf a gofnodwyd erioed yn y DU.[4] Mae'r Swyddfa Dywydd yn datgan mai un o brif achosion y tywydd newidiol (newid hinsawdd) yw **nwyon tŷ gwydr niweidiol**, fel $CO_2$, sy'n cael eu rhyddhau i'r atmosffer pan fyddwn yn llosgi tanwydd ffosil.

Nod Llywodraeth Cymru yw cyrraedd 100% o ddefnydd trydan Cymru o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2035, i fyny o ddim ond 53% yn 2023.[5]


[2] Llywodraeth Cymru. 2025. Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2023.

[3] UCL Press. 2025. Modelu manteision ariannol hirdymor buddsoddiad y DU mewn chynhyrchu ynni gwynt. https://journals.uclpress.co.uk/ucloe/plugins/isolinear/article/3584/version/1/

[4] Y Swyddfa Dywydd https://www.metoffice.gov.uk/about-us/news-and-media/media-centre/weather-and-climate-news/2025/summer-2025-is-the-warmest-on-record-for-the-uk

[5] Llywodraeth Cymru. 2025. Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2023.


## Amserlen

- **Gwanwyn/Haf 2024** Dechreuad y prosiect, cyflwyno'r adroddiad cwmpasu Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol i PEDW.
- **Hydref 2024** Ymgynghori â'r gymuned a chynlluniau camau cynnar.
- **Diwedd 2024 – 2025** Arolygon pellach, asesiadau, adolygu adborth, siarad â phobl leol, mireinio ein cynlluniau.
- **Rydym ni yma – Gaeaf 2025** Ymgynghoriad statudol, cyn-ymgeisio ar y Datganiad Amgylcheddol drafft, digwyddiadau ymgynghori cymunedol.
- **Diwedd 2025 – dechrau 2026** Adolygu'r adborth a chwblhau ein cais cynllunio.
- **Gwanwyn 2026** Cyflwyno'r cais cynllunio i PEDW.
- **2026** PEDW yn archwilio'r cais.
- **2027** Disgwylir penderfyniad gan Weinidogion Cymru.
- **2035 (dyddiad dangosol)** Os derbynnir caniatâd cynllunio.
- **2035 (dyddiad dangosol)** Gweithredol, yn cynhyrchu trydan glân, gwyrdd.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn adborth yw **5yp ar 9 Chwefror 2026.**

## Amdanom ni

Mae'r prosiect hwn yn cael ei ddatblygu gan Coriolis Energy ac ESB mewn partneriaeth. Mae Coriolis Energy yn ddatblygwr ynni gwynt profiadol, proffesiynol, sydd wedi cyflawni prosiectau ledled y DU sy'n dod â buddion i gymunedau a'r amgylchedd.

ESB yw cwmni ynni mwyaf blaenllaw Iwerddon ac mae'n gynhyrchydd pŵer annibynnol blaenllaw yn y DU, sydd wedi ymrwymo i fuddsoddi yn seilwaith ynni Cymru.

Coriolis Energy


ESB energy

Fferm Wynt

# Foel Fach

Wind Farm

# Map o'r safle
# *Site map*




© Crown copyright and database rights 2025 Ordnance Survey AC0000824405. Map data © OpenStreetMap contributors, Microsoft, Facebook, Google, Esri Community Maps contributors, Map layer by Esri.

**Allwedd** / ***Legend***

- Tyrbin / *Turbine*
- Ffin y safle / *Site boundary*
- Cwrt LiDAR / *LiDAR Compound*
- Lloriau caled / *Hardstands*
- Traciau / *Tracks*
- Ymylon / *Verges*
- Is-orsaf a System Storio Ynni Batris / *Substation and BESS*

